


Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# *Cynllun Gweithredu 5 Mlynedd Cymru Gyfan*

## ar Fwydo ar y Fron

Gorffennaf 2019

OGL © Hawlfraint y Goron 2019 WG38307 ISBN Digidol ISBN 978-1-83876-963-5

# Cynllun Gweithredu 5 Mlynedd Cymru Gyfan ar Fwydo ar y Fron

## Gorffennaf 2019

### Rhagarweiniad

Mae bwydo ar y fron yn bwysig i iechyd a datblygiad babanod a'u mamau, ac mae'n gysylltiedig ag atal anghydraddoldebau iechyd sylweddol. Darparu llaeth y fron yw'r gweithgaredd mwyaf hygyrch a chost-effeithiol sydd ar gael o ran iechyd y cyhoedd ac mae'n hysbys ei fod yn atal amryw o glefydau heintus ac anhrosglwyddadwy, yn benodol gastro-enteritis, gordewdra plant, diabetes math 2 a chanser y fron ymysg mamau *1,2*.

*'Mae bwydo ar y fron yn gonglfaen ar gyfer goroesiad, maeth a datblygiad y plentyn ac iechyd y fam. Mae Sefydliad Iechyd y Byd yn argymell bwydo ar y fron yn unig am chwe mis cyntaf bywyd plentyn, wedi'i ddilyn gan barhau i fwydo ar y fron ynghyd â rhoi bwydydd ategol priodol am hyd at ddwy flynedd neu fwy.'* (Sefydliad Iechyd y Byd 2003)

O ran yr ethos hwn a'r gred y dylai pob plentyn yng Nghymru gael y dechrau gorau mewn bywyd (Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015), mae bwydo ar y fron yn gallu rhoi dechrau gwell i blentyn mewn bywyd. Fodd bynnag, cydnabyddir efallai nad yw pob menyw yn dewis bwydo yn y modd hwn. Mae'n hollbwysig bod gan bob teulu fynediad at ddigon o wybodaeth sy'n seiliedig ar dystiolaeth er mwyn gwneud penderfyniad deallus, a'u bod yn cael eu cefnogi ym mha bynnag ddewis y maent yn ei wneud.

Mae gan y Deyrnas Unedig un o'r cyfraddau bwydo ar y fron isaf yn y byd; mae 80% o fabanod yn cael eu bwydo ar y fron adeg eu geni a dim ond 1% sy'n cael eu bwydo ar y fron yn unig yn 6 mis oed *4*, ac mae'r cyfraddau bwydo ar y fron yn is ymhlith menywod mewn ardaloedd lle mae mwy o amddifadedd, sy'n dwysáu anghydraddoldebau iechyd. Mae cyfraddau bwydo ar y fron yng Nghymru wedi parhau'n weddol sefydlog er y cafwyd buddsoddiad mewn gwasanaethau ac achrediad Menter Cyfeillgar i Fabanod UNICEF. Cydnabyddir bod hwn yn fater amlweddog sy'n ymwneud ag iechyd y boblogaeth, a chychwyn a pharhau i fwydo ar y fron.

Mae agweddau ac arferion diwylliannol ehangach yn parhau i ddylanwadu ar sut y mae menyw yn dewis bwydo ei baban ac, os bydd yn bwydo ar y fron, am ba mor hir y bydd yn parhau i wneud hynny. Ychydig iawn o gynnydd a gafwyd mewn cyfraddau bwydo ar y fron dros y degawd diwethaf; felly credir yn gryf fod angen dulliau gweithredu newydd gan na fydd addasiadau bach yn ddigon i sbarduno'r newid sydd ei angen.

Rydym wedi nodi amcanion a nodau strategol i lywio camau gweithredu o ran cymorth ar unwaith i fenywod a theuluoedd a'r cymhelliant iechyd i'r boblogaeth ehangach ystyried bwydo ar y fron yn ddewis a sicrhau bod hynny'n dderbyniol yn ddiwylliannol.

## Amcan Strategol Cyffredinol

Bydd mwy o fabanod yng Nghymru yn cael eu bwydo ar y fron, ac am fwy o amser, a bydd yr anghydraddoldebau presennol o ran cyfraddau bwydo ar y fron rhwng grwpiau yn cael eu lleihau.

Bydd yr amcan strategol yn cael ei gyflawni drwy'r ddau ddull gweithredu strategol a ganlyn, a fydd yn gweithio ochr yn ochr â'i gilydd ar lefel y boblogaeth, a bydd gan bob un ohonynt ei amcanion diffiniedig ei hun. Bydd un llinyn yn rhoi ystyriaeth i'r system iechyd a gofal a bydd y llinyn arall yn rhoi ystyriaeth i ddulliau gweithredu o ran y system gyfan a'r boblogaeth gyfan.

## Dull Gweithredu Strategol 1: Y System Iechyd

Bydd y dull gweithredu hwn yn datblygu camau gweithredu ar draws y system i fanteisio i'r eithaf ar botensial y Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru i gefnogi'r amcanion o ran bwydo babanod.

### Nodau Strategol

1. Cefnogi teuluoedd i wneud penderfyniadau deallus ynghylch sut i fwydo eu baban.
2. Galluogi mamau sydd wedi dewis bwydo ar y fron i wneud hynny'n llwyddiannus cyhyd ag yr hoffent.
3. Creu a chynnal amgylchedd sy'n cefnogi bwydo ar y fron yn y system gofal iechyd.

## Dull Gweithredu Strategol 2: Ar Lefel y Boblogaeth a'r System Gyfan

Bydd y dull gweithredu hwn yn datblygu camau gweithredu ar draws y boblogaeth i gefnogi'r dull gorau posibl o fwydo babanod i deuluoedd ledled Cymru.

### Nodau

1. Cefnogi'r boblogaeth i wneud dewisiadau deallus ynghylch bwydo babanod.
2. Dylanwadu ar arferion cymdeithasol, fel bod bwydo ar y fron yn cael ei ystyried yn ffordd arferol o fwydo baban a bod hynny'n cael ei dderbyn yn rhan o fywyd pob dydd.
3. Creu lleoliadau ac amgylcheddau sy'n adlewyrchu ethos cadarnhaol a chynhwysol o ran bwydo ar y fron (e.e. ysgolion, gweithleoedd, mannau cyhoeddus/trafnidiaeth gyhoeddus).
4. Rheoli hysbysebu a rheoli argaeledd dulliau bwydo babanod nad ydynt cystal (e.e. llaeth fformiwla dilynol).

Os oes gorgyffwrdd amlwg rhwng y dulliau gweithredu, h.y. argaeledd data o safon uchel, dylid dod â'r rhain at ei gilydd.

## Y Cefndir

Yn sgil pryder ynghylch y niferoedd sy'n cychwyn ac yn parhau i fwydo ar y fron yng Nghymru, gofynnodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol am grŵp Gorchwyl a Gorffen *8* i ddarparu adolygiad ac argymhellion. Bu'r grŵp, a oedd yn cynnwys arweinwyr clinigol, cyrff proffesiynol, cyrff iechyd y cyhoedd, mamau a swyddogion Llywodraeth Cymru, yn cyfarfod bob yn ail fis rhwng mis Medi 2017 a mis Ionawr 2018, gan ddarparu cyfres o argymhellion a gymeradwywyd gan y Gweinidog ym mis Gorffennaf 2018. Maent yn cynnwys argymhellion o ran darparu gwasanaethau yn y dyfodol a ble y dylai'r rhain gael eu targedu i gefnogi menywod i wella'r cyfraddau bwydo ar y fron yng Nghymru, drwy hyrwyddo cychwyn, parhau a dileu rhwystrau, drwy 'ddull gweithredu darbodus'.

*Argymhelliad 1: sicrhau bod systemau a phrosesau clir ar waith i gasglu, dadansoddi a dosbarthu data ar fwydo babanod*

*Argymhelliad 2: grŵp llywio strategol i sicrhau bod dull Cymru gyfan a chyfeiriad strategol*

*Argymhelliad 3: Rhwydwaith Bwydo Babanod Cymru, er mwyn darparu arweinyddiaeth weithredol i wella cyfraddau bwydo ar y fron*

*Argymhelliad 4: swydd newydd ar gyfer arweinydd strategol bwydo babanod ym mhob bwrdd iechyd*

*Argymhelliad 5: datblygu cynllun gweithredu Cymru gyfan yn unol â pholisïau presennol Llywodraeth Cymru; darperir sicrwydd ansawdd drwy ddatblygu a monitro dangosyddion perfformiad allweddol*

*Argymhelliad 6: bydd pob arweinydd strategol bwydo babanod yn datblygu, gweithredu a monitro cynllun gweithredu lleol a gaiff ei lywio yn unol â chynllun gweithredu Cymru gyfan er mwyn diwallu anghenion lleol; bydd pob bwrdd iechyd yn darparu sicrwydd ar gyfer cynnydd yn erbyn y dangosyddion perfformiad allweddol yn flynyddol*

*Argymhelliad 7: bydd pob bwrdd iechyd yn darparu model cymorth cydgysylltiedig a fydd yn cynnwys gweithwyr iechyd proffesiynol, cefnogwyr cymheiriaid, gwasanaethau a arweinir gan addysg a'r gymuned*

*Argymhelliad 8: adolygu safonau addysg presennol sy'n gysylltiedig â bwydo babanod yn gydnaws ag adolygiad y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth o safonau nyrsio a bydwreigiaeth. Sicrhau bod bwydo ar y fron yn elfen greiddiol o hyfforddiant bydwreigiaeth, neonatoleg a phediatreg*

*Argymhelliad 9: mae angen model sicrwydd ansawdd i osod a monitro safonau. Argymhellir cynnal arfarniad dewisiadau, ynghyd â dadansoddiad cost a budd o'r canlynol:*

- *Dewis 1: cadw'r sefyllfa bresennol. Mae gan y byrddau iechyd gontractau unigol â'r Fenter Cyfeillgar i Fabanod ar hyn o bryd os ydynt yn dymuno hynny, neu maent yn cynnal ffurf arall o sicrwydd ansawdd yr adroddir arni wedyn mewn byrddau perfformiad blynyddol.*

- *Dewis 2: contract model “Unwaith i Gymru” ar draws mamolaeth, neonatoleg, ymwelwyr iechyd ac addysg, sy’n cynnwys gwerthusiad o ganlyniadau bob tair blynedd. Gofynnwyd i’r Fenter Cyfeillgar i Fabanod gostio’r model hwn.*
- *Dewis 3: model adolygiad gan gymheiriaid (yn debyg i seiciatreg amenedigol), sy’n galluogi unedau i adolygu ei gilydd yn erbyn casgliad o safonau y cytunir arnynt. Byddai hyn yn darparu cyfleoedd i ddysgu ar y cyd a sicrhau cysondeb. Byddai angen mwy o gyllid cychwynnol i greu a sefydlu’r model.*

Roedd hyn hefyd yn cyd-fynd â chyhoeddi 'Cymru Iachach: Ein Cynllun Iechyd a Gofal Cymdeithasol *9* (Mehefin 2018) sy’n diffinio ymrwymiad i ddull system gyfan o ran gwella iechyd a llesiant pobl yng Nghymru, ac roedd y broses o’i weithredu yn cael ei harwain gan y Bwrdd Trawsnewid Cenedlaethol amlddisgyblaethol. Roedd adroddiad y grŵp gorchwyl a gorffen *10* yn argymell y dylid creu’r cynllun gweithredu Cymru gyfan ar fwydo ar y fron a grŵp trosolwg strategol i gefnogi’r gwaith o’i gyflawni.

Ochr yn ochr â hynny, mae Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi bod yn adolygu camau gweithredu i gynyddu’r cyfraddau bwydo ar y fron ar lefel y boblogaeth, gan ganolbwyntio ar leihau anghydraddoldebau. Maent wedi comisiynu ac yn gwneud sawl darn o waith i gefnogi’r datblygiad hwn, gan gynnwys y canlynol:

- adroddiad ar ddulliau gweithredu sy’n seiliedig ar asedau o ran bwydo ar y fron gan Brifysgol Caer;
- adolygiad o’r dystiolaeth ynghylch ymyrraeth o ran bwydo babanod yn y gymuned a datblygu argymhellion i lywio’r gwaith o gynllunio ymyrraeth. Cafodd y tîm ymchwil, a oedd yn cynnwys staff o’r Ganolfan Datblygu a Gwerthuso Ymyriadau Cymhleth er mwyn Gwella Iechyd y Cyhoedd (DECIPHer) ym Mhrifysgol Caerdydd, Prifysgol Abertawe ac elusen yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol Geni Plant, ei arwain gan egwyddor, sef ceisio galluogi mwy o fenywod, sy’n byw mewn cymunedau yng Nghymru lle mae cyfraddau isel o ran bwydo ar y fron, i fwydo ar y fron.
- dadansoddiad ymddygiadol i ddeall y rhwystrau a’r hwyluswyr sy’n sail i’r penderfyniad i gychwyn a pharhau i fwydo ar y fron.

Yn 2018, roedd Iechyd Cyhoeddus Cymru a Llywodraeth Cymru wedi cymryd rhan mewn prosiect rhyngwladol i feincnodi bwydo ar y fron, dan arweiniad Prifysgol Yale a Phrifysgol Caint yn y DU. Mae argymhellion y prosiect hwn, a ddatblygwyd gan banel o randdeiliaid, yn canolbwyntio’n benodol ar bolisïau a chamau gweithredu ar lefel y boblogaeth neu ar lefel genedlaethol:

- *Bydd cynllun gweithredu strategol ar fwydo ar y fron yn diffinio ac yn cyflawni amcanion call a thrawsnewidiol a chamau gweithredu ag adnoddau digonol ar lefel y system gyfan o ran bwydo ar y fron, ynghyd ag arweinyddiaeth, cydgysylltu ac atebolrwydd cenedlaethol a lleol.*

- *Bydd ymrwymiadau cyson a hirdymor gan y Llywodraeth o ran cyllid ac adnoddau, sy’n cael eu llywio gan dystiolaeth, yn sail i gynllun gweithredu Cymru ar fwydo ar y fron, sydd â sawl cydran, ac yn galluogi darpariaeth drawsnewidiol yn lleol i famau, babanod a theuluoedd.*

- *Bydd fframwaith ymgysylltu a hyrwyddo sy'n newid pwyslais ac sydd wedi'i greu ar y cyd, yn gyson ac ar sail tystiolaeth, yn cael ei ymwreiddio i sicrhau newid cymdeithasol er mwyn normaleiddio bwydo ar y fron ledled Cymru.*

- *Bydd safonau craidd cryfach a chydgysylltiedig o ran addysg a hyfforddiant ar draws partneriaid amlasiantaeth sy'n gweithio gyda mamau, babanod a theuluoedd yng Nghymru yn ymwreiddio dull gweithredu cyson o ran gwella ansawdd ar draws yr holl leoliadau. Mae'r safonau hyn yn seiliedig ar dystiolaeth ac yn cael eu monitro.*

- *Bydd mecanweithiau monitro a gwerthuso cadarn yn darparu data dibynadwy, esboniadol a chymaradwy yn amserol i lywio strategaeth, gwella a chynllunio gwasanaethau, a darparu sicrwydd ansawdd.*

- *Bydd camau gweithredu ymarferol yn cael eu cyflawni yng Nghymru i ymwreiddio safonau arfer da ymhlith Llywodraeth Cymru a sefydliadau cyhoeddus o ran hawliau diogelu mamolaeth a'r Cod Rhyngwladol ar Farchnata Amnewidion Llaeth y Fron a phenderfyniadau perthnasol dilynol gan Gynulliad Iechyd y Byd. Bydd camau gweithredu strategol gan Gymru yn sbarduno achos ystyrlon dros newid ynghylch materion ar draws y DU, gan gynnwys addysg ymarferwyr a'r amgylchedd deddfwriaethol o safbwynt Cymreig.*

Mae'r cynllun gweithredu hwn wedi'i ddatblygu gan grŵp o randdeiliaid ledled Cymru ac mae wedi'i lywio gan ffrydiau gwaith ynghylch iechyd y boblogaeth ehangach er mwyn cychwyn camau gweithredu lleol a chenedlaethol y nodwyd eu bod yn darparu fframwaith cryf i gefnogi menywod a theuluoedd sy'n dewis bwydo ar y fron. Bydd yr amcanion yn cael eu monitro gan grŵp llywio strategol i sicrhau eu bod yn cael eu gweithredu'n effeithiol.

| Cam gweithredu 1 |
| --- |
| Sicrhau bod systemau a phrosesau clir ar waith i gasglu, dadansoddi a dosbarthu data ar fwydo ar y fron ar lefel iechyd y boblogaeth, genedlaethol a lleol. |

**Camau gweithredu cenedlaethol**

Cydweithio â phartneriaid allweddol i wneud y canlynol:

- sicrhau bod un fframwaith data a dangosyddion cadarn, sy'n seiliedig ar dystiolaeth, ar waith i gefnogi gwyliadwriaeth ac asesiadau o anghenion ar lefel y boblogaeth; bydd prosesau rheoli perfformiad a gwella ansawdd ar gael ar lefel ddaearyddol briodol ac mewn modd amserol i lywio camau gweithredu.

- adolygu a chryfhau prosesau casglu data arferol adeg geni, ar ôl 10-14 diwrnod, 6-8 wythnos a 6 mis, gan roi ystyriaeth i ddiffiniadau, dulliau casglu/cofnodi a chyflawnder y data. Datblygu a chyflawni cynllun gwaith i wella ansawdd data, a chryfhau'r dulliau casglu a dosbarthu.

- adolygu'r sylfaen dystiolaeth ynghylch mabwysiadu adegau casglu data newydd, a dichonoldeb hynny, er enghraifft, ar ôl 48 awr, 15 mis a 27 mis, er mwyn cyd-fynd â phatrwm ymweliadau rhaglen Plant Iach Cymru, a'r data a gesglir ganddi, a gwaith meincnodi rhyngwladol, fel yr amlinellir yn argymhellion Sefydliad Iechyd y Byd ar fwydo ar y fron. Os penderfynir bod angen casglu data ar adegau ychwanegol, cydweithio â'r holl randdeiliaid allweddol i gael cymeradwyaeth gan Fwrdd Safonau Gwybodaeth Cymru, yn rhan o'r cynllun gweithredu.

- adolygu a gwella'r diffiniad o "bwriad i fwydo ar y fron" (ystyried cofnodi canlyniad sgyrsiau ystyrlon â mamau yn ystod y cyfnod cynenedigol). Os cytunir, cynnwys y dangosydd hwn yn y cynllun gwella ansawdd cyffredinol.

- creu fframwaith cenedlaethol i fonitro profiadau menywod a gwerthuso effeithiolrwydd ymyriadau ar lefel y gymuned. Ochr yn ochr â datganiadau data meintiol, bydd y canfyddiadau yn llywio cylch parhaus o wella ansawdd i sbarduno effaith gadarnhaol a mesuradwy ar ganlyniadau bwydo ar y fron a lleihau anghydraddoldebau iechyd.

- creu cynllun gwerthuso cadarn sy'n sail i gydrannau Cynllun Gweithredu Cymru Gyfan ar Fwydo ar y Fron a'r gwaith o'i gyflawni/goruchwylio, ynghyd â sianeli adborth clir i'r grŵp llywio cenedlaethol a Rhwydwaith Bwydo Babanod Cymru, er mwyn llywio gwaith cynllunio a chyflawni parhaus.

- datblygu mecanweithiau i sicrhau bod byrddau iechyd yn atebol am gyflwyno data ar fwydo babanod yn amserol ac yn gywir gan swyddfeydd iechyd plant cymunedol i'r Gronfa Ddata Genedlaethol ar Iechyd Plant Cymunedol.

| Camau gweithredu lleol |
|---|
| • datblygu mecanweithiau atebolrwydd er mwyn i ddarparwyr gwasanaethau mewn byrddau iechyd (gan gynnwys bydwragedd, ymwelwyr iechyd a meddygon teulu) fod yn atebol am gyflwyno data ar fwydo babanod yn amserol ac yn gywir i'w swyddfa iechyd plant cymunedol leol.<br><br>• archwilio a chwestiynu gwybodaeth leol yn rheolaidd i ddeall tueddiadau o ran bwydo ar y fron, ymddygiad bwydo ar y fron ac adegau tyngedfennol, megis lleihau a rhoi'r gorau i fwydo ar y fron. Defnyddio'r wybodaeth hon i lywio'r gwaith o fonitro a chynllunio gwasanaethau cynhwysfawr.<br><br>• cydweithio â darparwyr gwasanaethau lleol i wella cywirdeb, cyflawnder ac amseroldeb data ar fwydo babanod a gyflwynir i swyddfeydd iechyd plant cymunedol lleol.<br><br>• defnyddio methodolegau gwella ansawdd a'r fframwaith cenedlaethol, pan fydd wedi'i sefydlu, i sbarduno gwelliant parhaus, sydd wedi'i lywio gan ddata, ar draws y llwybr gofal ar gyfer bwydo babanod. Bydd hyn yn ceisio cael effaith gadarnhaol a mesuradwy ar ganlyniadau a lleihau anghydraddoldebau iechyd.<br><br>• cydweithio â thimau iechyd y cyhoedd lleol, byrddau partneriaeth rhanbarthol a byrddau gwasanaethau cyhoeddus i fyfyrio ynghylch y data, monitro gwelliannau a datblygu camau gweithredu ategol sy'n seiliedig ar dystiolaeth, lle bo'n briodol. |

| Sylfaen dystiolaeth |
|---|
| Sefydliad Iechyd y Byd ac UNICEF (2003) Global strategy on infant and young child feeding.<br><br>McFadden et al (2017) Support for healthy breastfeeding mothers with healthy term babies, Cochrane Database of Systematic Reviews 2017, Rhifyn<br><br>Rollins et al. (2016) Why invest, and what it will take to improve breastfeeding practices? Lancet 387, 491–504.<br><br>Pecyn Briffio ar Argymhellion 'Becoming Breastfeeding Friendly' https://publichealth.yale.edu/bfci/countries/great_britain/index.aspx |

| Cam gweithredu 2 |
| --- |
| Sefydlu grŵp llywio strategol i sicrhau dull Cymru gyfan o ran gwella cyfraddau bwydo ar y fron yng Nghymru. Bydd y grŵp llywio strategol yn pennu'r cyfeiriad strategol ac yn cynghori'r Llywodraeth ynghylch y cyfeiriad yn y dyfodol, gan gwmpasu dulliau gweithredu o ran iechyd y boblogaeth a darparu gwasanaethau. |

**Camau gweithredu cenedlaethol**

- sefydlu grŵp llywio strategol sy'n cynnwys rhanddeiliaid allweddol i fod yn atebol am oruchwylio a monitro arferion o ran bwydo ar y fron a chymorth i wasanaethau yng Nghymru.
- ystyried y dewisiadau o ran cynnwys targed Haen 1 ar fwydo ar y fron yn Fframwaith Perfformiad y GIG.
- sicrhau bod mecanweithiau effeithiol ar waith i gadw golwg ar y boblogaeth a gwneud argymhellion ynghylch camau gweithredu i wella'r ddarpariaeth.
- adolygu tystiolaeth ryngwladol a chenedlaethol berthnasol, camau gweithredu a'r dewisiadau o ran polisi, ac ystyried y goblygiadau i Gymru.
- datblygu cynllun gwaith blynyddol sydd wedi'i lywio gan waith ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol ac argymhellion gan Rwydwaith Bwydo Babanod Cymru ynghylch gwaith gwella posibl a datblygu materion.
- derbyn cynllun gwaith blynyddol ar gyfer Rhwydwaith Bwydo Babanod Cymru a llywio datblygiad cynllun gwaith ar gyfer y dyfodol sy'n cynnwys gwaith o fewn y cyfeiriad polisi cenedlaethol.
- monitro amrywiadau o ran cyfraddau bwydo ar y fron o fewn grwpiau o'r boblogaeth, a rhyngddynt, ac ar draws byrddau iechyd. Cychwyn cyfleoedd i rannu arferion gorau a mabwysiadu dull Cymru gyfan.
- monitro cynlluniau tymor canolig integredig gan fyrddau iechyd i sicrhau bod ffocws strategol lleol ar gymorth o ran bwydo ar y fron a bod arferion yn cael eu hadlewyrchu mewn cynlluniau gweithredu lleol.
- datblygu strategaeth werthuso i fesur llwyddiant o ran cyflawni'r amcanion a'r targedau y cytunwyd arnynt ac a ddiffiniwyd yn y cynllun gweithredu pum mlynedd Cymru gyfan, sydd â sawl cydran.

## Camau gweithredu lleol

- sicrhau bod cynlluniau tymor canolig integredig y byrddau iechyd yn cynnwys camau gweithredu i'w datblygu mewn cynlluniau gweithredu lleol ar fwydo ar y fron sy'n cael eu llywio gan arweinwyr strategol bwydo babanod y byrddau iechyd. Dylai'r cynllun tymor canolig integredig roi eglurder ynghylch amcanion, camau gweithredu call a dyrannu adnoddau er mwyn cael ei gymeradwyo.

- sicrhau bod cynlluniau gweithredu lleol ar waith i ddatblygu gwelliant o ran nifer y menywod sy'n cychwyn ac yn parhau i fwydo ar y fron, gan ddefnyddio methodolegau gwella ansawdd, megis mapio prosesau, i sbarduno gwelliant parhaus ar draws y llwybr gofal ar gyfer bwydo babanod.

- datblygu mecanweithiau effeithiol o ran partneriaethau lleol ar gyfer adolygiad strategol a gweithredol o weithgarwch a chanlyniadau bwydo babanod, gan gynnwys byrddau iechyd, timau iechyd y cyhoedd lleol, clystyrau gofal sylfaenol, byrddau gwasanaethau cyhoeddus a byrddau partneriaeth rhanbarthol.

- gan ddefnyddio'r egwyddorion cynllunio dan y Cynllun Trawsnewid, cydweithio â byrddau iechyd, arweinwyr lleol bwydo babanod ac arbenigwyr mewn bwydo babanod o gefndiroedd statudol, academaidd a'r trydydd sector, er mwyn cefnogi'r gwaith o gyflawni cynlluniau tymor canolig integredig sy'n seiliedig ar dystiolaeth ac sydd wedi'u teilwra'n lleol. Bydd y gwaith hwn wedi'i lywio gan ddamcaniaethau newid sy'n mapio sut y gall y Cynllun Gweithredu Cymru Gyfan weithio ar lefel unigolion, cymunedau ac ar lefel y boblogaeth ac mewn gwahanol gyd-destunau diwylliannol/o ran cyfraddau bwydo ar y fron.

- datblygu mecanweithiau gwerthuso i fesur llwyddiant ymyriadau i wella cyfraddau lleol o ran cychwyn a pharhau i fwydo ar y fron, ynghyd ag adborth gan ddefnyddwyr gwasanaethau.

- darparu adroddiad blynyddol i'r grŵp llywio cenedlaethol ynghylch effeithiolrwydd ymyriadau a'r effaith ar gyfraddau cychwyn a pharhau i fwydo ar y fron, gan gynnwys adborth gan ddefnyddwyr gwasanaethau.

## Sylfaen dystiolaeth

Pecyn Briffio ar Argymhellion 'Becoming Breastfeeding Friendly'
https://publichealth.yale.edu/bfci/countries/great_britain/index.aspx

Llywodraeth Cymru (2018) Cymru Iachach: Ein Cynllun Iechyd a Gofal Cymdeithasol

| Cam gweithredu 3 |
| --- |
| Sefydlu Rhwydwaith Bwydo Babanod Cymru er mwyn darparu arweinyddiaeth weithredol i wella cyfraddau bwydo ar y fron. Bydd y rhwydwaith yn cynghori ac yn ymgymryd â gwaith dirprwyedig ar ran y grŵp llywio strategol y mae'n atebol iddo, ac yn cysylltu â gwledydd eraill yn y DU. |

| Camau gweithredu cenedlaethol |
| --- |
| • bydd Llywodraeth Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru yn cefnogi'r gwaith o ffurfio a chynnal grŵp Rhwydwaith Bwydo Babanod Cymru. Bydd y rhwydwaith yn cynnwys arweinwyr strategol bwydo babanod y byrddau iechyd a rhanddeiliaid allweddol eraill.<br><br>• bydd Rhwydwaith Bwydo Babanod Cymru yn ceisio gwella'r gofal a'r diwylliant bwydo ar y fron yng Nghymru, drwy rannu arferion da a defnyddio'r sylfaen dystiolaeth bresennol.<br><br>• bydd Rhwydwaith Bwydo Babanod Cymru yn cyflwyno sylwadau i'r Rhwydwaith Bwydo Babanod Cenedlaethol er mwyn rhannu arbenigedd cenedlaethol ledled y DU, ynghyd ag ymchwil ac arferion gorau sy'n seiliedig ar dystiolaeth ynghylch bwydo ar y fron, llaetha, bwydo babanod a datblygiad cynnar iawn plant, a fydd yn y pen draw yn gwella ac yn sicrhau'r canlyniadau gorau posibl o ran iechyd a llesiant i famau a babanod (a'u teuluoedd) yng Nghymru.<br><br>• bydd aelodau Rhwydwaith Bwydo Babanod Cymru yn cydweithio â'r arweinwyr strategol bwydo babanod a'r timau bwydo ar y fron lleol ym mhob bwrdd iechyd. Bydd hyn yn creu fframwaith polisi a systemau i wella ansawdd a mynediad i rieni at yr holl gymorth bwydo babanod drwy'r system ysbytai a gofal iechyd yn y gymuned.<br><br>• bydd Rhwydwaith Bwydo Babanod Cymru yn gwneud gwaith cwmpasu ynghylch ei rôl weithredol, ar gais y grŵp llywio strategol, ac yn rhoi cyngor proffesiynol ar faterion ynghylch cychwyn a pharhau i fwydo ar y fron, er mwyn llywio'r cynllun gwaith blynyddol.<br><br>• bydd Llywodraeth Cymru yn rhoi adnoddau priodol i Rwydwaith Bwydo Babanod Cymru er mwyn gweithredu dulliau arloesol sy'n seiliedig ar dystiolaeth a/neu wasanaethau cymorth bwydo ar y fron ychwanegol, e.e.: torri cwlwm tafod/creu cronfa laeth genedlaethol, yn unol â blaenoriaethau'r grŵp llywio strategol. |

| Camau gweithredu lleol |
|---|
| • bydd y byrddau iechyd yn cefnogi cynrychiolaeth gan arweinwyr strategol bwydo babanod ar grŵp Rhwydwaith Bwydo Babanod Cymru er mwyn sicrhau dull cenedlaethol cydgysylltiedig o ran gweithredu'r cynllun gweithredu cenedlaethol.<br><br>• bydd byrddau iechyd yn datblygu fframwaith gwasanaeth sy'n seiliedig ar ymchwil a thystiolaeth a fydd yn darparu safonau gofal o ansawdd ar draws gwasanaethau gofal iechyd a bydd Rhwydwaith Bwydo Babanod Cymru yn eu cefnogi.<br><br>• bydd arweinwyr strategol y byrddau iechyd yn cydweithio â Rhwydwaith Bwydo Babanod Cymru i wneud yn siŵr bod dulliau sicrhau ansawdd yn cael eu defnyddio i gynnal ansawdd y gofal a'r wybodaeth a roddir i famau a babanod, ni waeth pa ddull bwydo a ddewisir.<br><br>• bydd Rhwydwaith Bwydo Babanod Cymru yn gweithredu dulliau arloesol lleol sy'n seiliedig ar dystiolaeth, ac sy'n ceisio cynyddu a chefnogi bwydo ar y fron, a cheir adnoddau a chefnogaeth ddigonol gan Lywodraeth Cymru, Iechyd Cyhoeddus Cymru a'r byrddau iechyd.<br><br>• bydd Rhwydwaith Bwydo Babanod Cymru a'r byrddau iechyd lleol yn cefnogi anghenion hyfforddiant addysgol lleol yr holl staff sydd mewn cysylltiad â mamau, babanod a'u teuluoedd. Bydd hyn yn sicrhau bod gan staff gofal iechyd y wybodaeth, sgiliau a'r addysg briodol i'w galluogi i wneud y canlynol: cefnogi'r holl rieni i feithrin perthynas â'u baban; hyrwyddo, diogelu a chefnogi bwydo ar y fron; ac fel y bo'n briodol, helpu rhieni wrth ddefnyddio ffyrdd eraill o fwydo babanod. |

| Sylfaen dystiolaeth |
|---|
| Safonau Cyfeillgar i Fabanod UNICEF<br>Cylch Gorchwyl Rhwydwaith Bwydo Babanod Cymru<br>Cynllun Strategaeth Bwydo ar y Fron Llywodraeth Cymru |

| Cam gweithredu 4 |
| --- |
| Creu a sefydlu swydd newydd ar gyfer arweinydd strategol bwydo ar y fron ym mhob bwrdd iechyd i ddarparu rôl arweinyddiaeth strategol ar draws gwasanaethau byrddau iechyd, gan gynnwys gwasanaethau mamolaeth, neonatoleg, pediatrig a chymunedol. Bydd y disgrifiad o'r rôl yn cael ei greu i sicrhau arweinyddiaeth strategol gan y bwrdd iechyd o ran bwydo ar y fron ac atebolrwydd i'r cyfarwyddwr nyrsio. |

**Camau gweithredu cenedlaethol**

- datblygu achos busnes i'w gyflwyno i fyrddau partneriaeth rhanbarthol sy'n cyd-fynd â'r rhaglen gydweithredol, Y 1000 Diwrnod Cyntaf, ac agenda Iechyd Cyhoeddus Cymru.
- datblygu disgrifiad swydd i Gymru gyfan er mwyn sicrhau dull gweithredu Cymru gyfan o ran swydd yr arweinydd strategol bwydo ar y fron.
- nodi ffynonellau cyllid gan bartneriaethau rhanbarthol ar gyfer yr arweinydd strategol bwydo ar y fron.

**Camau gweithredu lleol**

- nodi fframwaith llywodraethu ar gyfer arweinyddiaeth strategol gan y bwrdd iechyd o ran bwydo ar y fron ac atebolrwydd i'r cyfarwyddwr nyrsio.
- sicrhau dull gweithredu strategol a chynhwysol o ran bwydo ar y fron ar draws darpariaeth gofal iechyd ar gyfer defnyddwyr gwasanaethau a gweithwyr.

**Sylfaen dystiolaeth**

Buddsoddi mewn Gwell Cychwyn: Hybu Bwydo ar y Fron yng Nghymru 2001

Trosglwyddo cyfrifoldeb am fwydo ar y fron i Iechyd Cyhoeddus Cymru yn 2011

Trawsnewid y Maes Gwella Iechyd yng Nghymru 2013 '*angen mwy o ystyriaeth barhaus'*

Iachach i bawb – Agenda Ymyrraeth Gynnar

Profiadau niweidiol yn ystod plentyndod a chymorth i deuluoedd agored i niwed / Agenda Iechyd Meddwl Amenedigol – rhyngwyneb strategol

Cymru Iachach

| Cam gweithredu 5 |
|---|
| Bydd pob arweinydd strategol bwydo ar y fron yn datblygu, gweithredu a monitro cynllun gweithredu lleol a gaiff ei lywio yn unol â chynllun gweithredu Cymru gyfan er mwyn diwallu anghenion lleol. Bydd pob bwrdd iechyd yn darparu sicrwydd ar gyfer cynnydd yn erbyn y dangosyddion perfformiad allweddol mewn byrddau perfformiad blynyddol. |

**Camau gweithredu cenedlaethol**

- cryfhau arweinyddiaeth ac atebolrwydd ar draws y system gofal iechyd er mwyn sbarduno gwelliannau o ran bwydo ar y fron ledled Cymru. Bydd y byrddau iechyd yn atebol i'r grŵp llywio strategol, drwy'r arweinwyr strategol bwydo babanod, am ddarparu gwasanaethau sy'n ymwneud â chychwyn bwydo ar y fron a chymorth.

- cryfhau partneriaethau â'r holl asiantaethau partneriaeth, megis awdurdodau lleol, gan geisio dylanwadu ar agweddau diwylliannol at fwydo ar y fron. Bydd arweinwyr strategol bwydo babanod yn sicrhau dull gweithredu cydgysylltiedig o ran cynlluniau gweithredu lleol.

- bydd arweinwyr strategol bwydo babanod yn llywio'r dull gweithredu cydgysylltiedig o ran cynllun gwaith blynyddol y grŵp llywio strategol.

- bydd y grŵp arweinyddiaeth strategol yn darparu mecanwaith ar gyfer monitro perfformiad o ran data byrddau iechyd lleol y mae'r arweinwyr strategol bwydo babanod yn ei gasglu ac yn cyfrannu ato.

**Camau gweithredu lleol**

- ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol i sicrhau amcan ar y cyd o ran cynyddu nifer y menywod sy'n cychwyn ac yn parhau i fwydo ar y fron mewn cymunedau lleol.

- darparu arweinyddiaeth i weithlu arbenigol bwydo babanod, ynghyd â rhaglen hyfforddiant ar gyfer gwasanaethau bydwreigiaeth, ymwelwyr iechyd a neonatoleg ar draws y bwrdd iechyd.

- adrodd ar lefel y cyfarwyddwr nyrsio a sicrhau atebolrwydd ar lefel weithredol am arferion bwydo ar y fron.

- sicrhau cynaliadwyedd o ran y ddarpariaeth gofal iechyd ar draws yr holl wasanaethau. Mae angen datblygu a chynnal llwybrau addysgol cadarn cyn cofrestru ac ar ôl cofrestru ym meysydd nyrsio, bydwreigiaeth a meysydd meddygol.

- casglu a monitro data lleol i bennu'r cyfeiriad strategol cenedlaethol a llywio cynlluniau gwaith.

- darparu cynllun gweithredu lleol blynyddol i'r grŵp llywio strategol ynghyd â thystiolaeth ei fod wedi'i gynnwys yn y cynllun tymor canolig integredig a bod rhanddeiliaid allweddol a phartneriaid wedi'u cynnwys.

- casglu tystiolaeth o adborth gan ddefnyddwyr gwasanaethau a chamau gweithredu i fynd i'r afael ag anghenion lleol.

- cydweithio â Rhwydwaith Bwydo Babanod Cymru i sicrhau bod arferion gorau yn cael eu rhannu a bod safonau cenedlaethol yn cael eu cynnal.

| Cam gweithredu 6 |
| --- |
| Bydd pob bwrdd iechyd yn darparu model cymorth cydgysylltiedig a fydd yn cynnwys gweithwyr iechyd proffesiynol, cefnogwyr cymheiriaid, gwasanaethau proffesiynol a arweinir gan addysg a'r gymuned. |

| Camau gweithredu cenedlaethol |
| --- |
| • datblygu fframwaith gwybodaeth a sgiliau i gefnogi datblygiad gweithlu medrus a hyderus i'r GIG (gofal sylfaenol ac eilaidd) a'r trydydd sector ar wahanol lefelau (gwybodus, medrus, arbenigol).<br>• adolygu'r mecanweithiau ar gyfer hyfforddi a datblygu staff ar draws y system gofal iechyd (gofal sylfaenol ac eilaidd a'r trydydd sector) ynghylch bwydo babanod ar dair prif lefel cyn ac ar ôl cofrestru.<br>• datblygu a chytuno ar safonau ansawdd ar gyfer defnyddio cefnogaeth cymheiriaid neu leygwyr wrth ddarparu cymorth bwydo ar y fron.<br>• datblygu model gwasanaeth sy'n seiliedig ar dystiolaeth a chyfarwyddyd ynghylch rôl cefnogaeth cymheiriaid yng ngwasanaethau cymorth bwydo ar y fron GIG Cymru.<br>• gwneud argymhellion ynghylch modelau gwasanaeth sy'n seiliedig ar dystiolaeth ar gyfer darpariaeth leol sy'n cynnig mynediad teg at wasanaethau ar lefel arbenigol ledled Cymru.<br>• datblygu a chytuno ar safonau ansawdd cenedlaethol o ran cymorth bwydo ar y fron ar lefel wybodus, fedrus ac arbenigol. |

| Camau gweithredu lleol |
| --- |
| • adolygu lefelau gwybodaeth a sgiliau staff ar bob lefel o'r fframwaith sgiliau cenedlaethol (pan fydd wedi'i ddatblygu).<br>• sicrhau bod y fframwaith gwybodaeth a sgiliau yn llywio disgrifiadau swyddi lleol a manylebau person ar gyfer staff perthnasol.<br>• cynnal adolygiad o'r model gwasanaeth cymorth bwydo ar y fron lleol yn erbyn yr anghenion a nodwyd.<br>• datblygu a disgrifio model cymorth bwydo ar y fron lleol, sy'n seiliedig ar y dystiolaeth orau sydd ar gael ac sy'n cynnig mynediad teg at wasanaethau gwybodus, medrus ac |

arbenigol.

- sicrhau bod system ar waith i ystyried datblygiadau o ran cyfarwyddyd cenedlaethol, neu'r sylfaen dystiolaeth a'i chymhwyso i wasanaethau lleol.

**Cam gweithredu 7**

Adolygu safonau addysg presennol sy'n gysylltiedig â bwydo ar y fron a bwydo babanod yn gydnaws ag adolygiad y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth o safonau nyrsio a bydwreigiaeth. Sicrhau bod bwydo ar y fron yn elfen greiddiol o hyfforddiant bydwreigiaeth, neonatoleg, nyrsys iechyd y cyhoedd cymunedol arbenigol a phediatreg.

**Camau gweithredu cenedlaethol**

- datblygu gweithlu medrus a chymwys i GIG Cymru ym mhob rhan o'r gwasanaethau gofal sylfaenol ac eilaidd.
- sicrhau bod addysg cyn ac ar ôl cofrestru yn cael ei chomisiynu, sy'n mabwysiadu cymwyseddau craidd y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth mewn perthynas â chymorth, sgiliau a gwybodaeth ynghylch bwydo ar y fron.
- bydd gwasanaethau yn mabwysiadu ac yn datblygu safonau sy'n seiliedig ar dystiolaeth.

**Camau gweithredu lleol**

- bydd pob bwrdd iechyd yn creu ac yn cynnal gweithlu hyfforddedig mewn amgylchedd sy'n cefnogi bwydo ar y fron a bwydo babanod.
- bydd byrddau iechyd yn darparu staff hyfforddedig ar draws y system gofal iechyd mewn perthynas â bwydo ar y fron a bwydo babanod, ar dair prif lefel, sef:

  a) gwybodus
  b) medrus
  c) arbenigol

- bydd sefydliadau academaidd ledled Cymru yn safoni deilliannau dysgu addysgol o ran bwydo ar y fron a bwydo babanod.
- datblygu safonau academaidd i sicrhau cysondeb ac ansawdd y deilliannau dysgu o ran bwydo ar y fron a bwydo babanod.

**Sylfaen dystiolaeth**

Safonau'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth

| Cam gweithredu 8 |
|---|
| Mae angen model sicrwydd ansawdd i osod a monitro safonau. Cafodd arfarniad dewisiadau ei arwain gan Iechyd Cyhoeddus Cymru ar y cyd â rhanddeiliaid allweddol a chytunwyd ar y dewis canlynol a ffefrir:<br><br>• Dewis 2 – contract model "Unwaith i Gymru" ar draws mamolaeth, neonatoleg, ymwelwyr iechyd ac addysg sy'n cynnwys gwerthusiad o ganlyniadau bob tair blynedd. Gofynnwyd i'r Fenter Cyfeillgar i Fabanod gostio'r model hwn. |

| Camau gweithredu cenedlaethol |
|---|
| • bydd y dewis a ffefrir yn cael ei fodelu a'i gostio gan Lywodraeth Cymru ar y cyd ag Iechyd Cyhoeddus Cymru a rhanddeiliaid allweddol.<br><br>• rhoddir cyngor ar ôl datblygu model sicrwydd ar gyfer y dyfodol i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.<br><br>• ar ôl cytuno ar y model ar gyfer y dyfodol, bydd y grŵp arweinyddiaeth strategol yn goruchwylio'r gwaith o ddatblygu, gweithredu a monitro'r model sicrwydd. |

| Camau gweithredu lleol |
|---|
| • bydd byrddau iechyd yn gweithio mewn partneriaeth â'r grŵp arweinyddiaeth strategol i egluro rolau a chyfrifoldebau gweithwyr proffesiynol gofal iechyd sy'n cefnogi'r model sicrhau ansawdd, gan fanylu ar atebolrwydd proffesiynol.<br>• bydd byrddau iechyd yn darparu data ar ganlyniadau bwydo ar y fron er mwyn cadw golwg ar hynny i fonitro tueddiadau mewn ardaloedd byrddau iechyd lleol.<br>• bydd byrddau iechyd yn cymryd rhan yn y gwaith o ddefnyddio data ar ganlyniadau bwydo ar y fron i lywio'r broses gwella ansawdd ar lefel byrddau iechyd ac ymarferwyr unigol. |

| Cam gweithredu 9 |
| --- |
| Bydd angen i wasanaethau arbenigol priodol fod ar waith i gefnogi menywod i fwydo ar y fron cyhyd ag y maent yn bwriadu gwneud hynny. |

**Camau gweithredu cenedlaethol**

Dylai fod gan yr holl fenywod yng Nghymru fynediad at gymorth arbenigol o ran bwydo ar y fron a bwydo babanod. Dylai menywod fod yn fodlon ar y gofal y maent wedi'i gael mewn perthynas â bwydo babanod. Mae'n rhaid i ymarferwyr gofal iechyd gydnabod gofal y tu hwnt i heriau cyffredin a dylai fod llwybrau gofal priodol a gytunwyd ar gyfer atgyfeirio at wasanaethau arbenigol.

*Er mwyn gwireddu hyn, bydd angen y canlynol:*

- cymorth cenedlaethol a gyllidir i gydgysylltu canllawiau arbenigol Cymru gyfan, e.e.: torri cwlwm tafod, canllawiau ar golli pwysau'n gynnar i famau babanod newydd-anedig.
- darparu system genedlaethol ar gyfer gwasanaethau torri cwlwm tafod, sy'n cynnwys cymorth bwydo ar y fron arbenigol, atgyfeirio, gwasanaethau arbenigol a gwasanaethau dilynol.
- datblygu mecanweithiau sicrhau ansawdd o safon uchel sy'n seiliedig ar dystiolaeth, gan gynnwys profi hygyrchedd gwasanaethau bwydo ar y fron arbenigol ym mhob bwrdd iechyd ledled Cymru.
- ymrwymiad gan y Llywodraeth ac Iechyd Cyhoeddus Cymru i gydymffurfio â'r Cod Rhyngwladol ar Farchnata Amnewidion Llaeth y Fron / creu deddfwriaeth sy'n atal hyrwyddo llaeth fformiwla mewn ffordd anfoesegol. Dylai'r holl gyrff proffesiynol yng Nghymru gydymffurfio â'r safonau hyn.
- datblygu ac asesu cynllun strategol i gydgysylltu cronfa llaeth y fron genedlaethol sy'n hawdd ei defnyddio ac yn gost-effeithiol i'r holl unedau gofal dwys neonatoleg / unedau neonatoleg / gwasanaethau mamolaeth ledled Cymru.

**Camau gweithredu lleol**

- bydd pob bwrdd iechyd yn datblygu cymorth arbenigol o ran bwydo ar y fron/bwydo babanod i ddiwallu anghenion lleol a darparu gofal effeithiol sydd wedi'i symleiddio i deuluoedd sy'n cael eu hatgyfeirio gan unrhyw weithiwr proffesiynol gofal iechyd. Mae'n rhaid i hyn gynnwys cymorth drwy gydol y daith bwydo babanod.

- sicrhau bod ymarferwyr yn ymwybodol o'u cyfyngiadau pan fydd anawsterau o ran bwydo ar y fron a bwydo babanod y tu hwnt i heriau cyffredin a'u harbenigedd clinigol.

| Cam gweithredu 10 |
|---|
| Datblygu a gweithredu dull cyfathrebu ynghylch bwydo ar y fron sydd wedi'i greu ar y cyd, yn gyson ac yn seiliedig ar dystiolaeth er mwyn sicrhau newid cymdeithasol a normaleiddio bwydo ar y fron yng Nghymru. |

| Camau gweithredu cenedlaethol |
|---|
| • bydd Iechyd Cyhoeddus Cymru yn arwain y gwaith o gyfuno'r sylfaen dystiolaeth bresennol sydd ar gael ynghylch manteision bwydo ar y fron mewn gwledydd ag incwm uchel a throsi hyn yn ddatganiadau tystiolaeth hygyrch i'w defnyddio ar draws y system.<br>• bydd prosiect gwybodaeth i rieni Cymru yn sicrhau bod gwybodaeth i rieni yn cefnogi amcanion y Cynllun Gweithredu Strategol ar Fwydo ar y Fron wrth iddo gymryd lle 'Naw Mis a Mwy'.<br>• bydd Iechyd Cyhoeddus Cymru yn cydweithio â rhanddeiliaid i sicrhau bod y canllawiau arfer gorau yn cael eu dilyn er mwyn llunio gwybodaeth ar y cyd ynghylch bwydo ar y fron yng Nghymru.<br>• bydd Iechyd Cyhoeddus Cymru yn sicrhau bod gwybodaeth sy'n seiliedig ar dystiolaeth i gefnogi bwydo ar y fron ar gael drwy wefan Pob Plentyn Cymru.<br>• bydd Iechyd Cyhoeddus Cymru, Llywodraeth Cymru, byrddau iechyd a'r trydydd sector yn cydweithio i sicrhau bod gwybodaeth gyson, hygyrch a dwyieithog, sy'n seiliedig ar dystiolaeth, ar gael i gefnogi bwydo ar y fron.<br>• bydd Iechyd Cyhoeddus Cymru yn adolygu'r dystiolaeth ynghylch camau gweithredu effeithiol i hyrwyddo cychwyn bwydo ar y fron, gan ddefnyddio dulliau arfer gorau o ran newid ymddygiad a marchnata cymdeithasol a gwneud argymhellion ynghylch gweithredu, yn rhan o'i raglen 10 Cam i Bwysau Iach.<br>• bydd Llywodraeth Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru yn ystyried yr angen am well arweiniad a monitro o ran Cod Rhyngwladol Sefydliad Iechyd y Byd ar Farchnata Amnewidion Llaeth y Fron yng Nghymru. |

| Camau gweithredu lleol |
|---|
| • bydd byrddau iechyd yn cydweithio â'r prosiect gwybodaeth i rieni Cymru gyfan i leihau dyblygu a chynyddu cyfathrebu cyson ynghylch bwydo ar y fron.<br>• bydd byrddau iechyd yn cydweithio â phartneriaid lleol i ddosbarthu gwybodaeth eglur a chyson sy'n seiliedig ar dystiolaeth ynghylch bwydo ar y fron mewn cymunedau lleol.<br>• bydd byrddau iechyd yn sicrhau bod yr holl rieni sy'n bwydo ar y fron yn cael eu cyfeirio at gyngor a gwybodaeth annibynnol â sicrwydd ansawdd, sy'n seiliedig ar dystiolaeth, ynghylch bwydo ar y fron.<br>• bydd byrddau iechyd drwy eu partneriaethau strategol lleol yn gweithio i sicrhau bod unrhyw gyfathrebu torfol neu weithgarwch marchnata ar gyfer y cyhoedd yn cael ei lywio gan arferion gorau o ran gwyddoniaeth ymddygiadol ac arferion marchnata cymdeithasol, a'i fod yn ystyried y cyfle i gyfannu gweithredu ar lefel genedlaethol lle |

|  |
|---|
| bo'n briodol.<br>• bydd byrddau iechyd yn sicrhau bod mecanweithiau effeithiol ar waith ganddynt i fonitro cydymffurfiaeth â'r Cod Rhyngwladol ar Farchnata Amnewidion Llaeth y Fron. |

| Sylfaen dystiolaeth |
|---|
| Cod Rhyngwladol Sefydliad Iechyd y Byd ar Farchnata Amnewidion Llaeth y Fron 1981 https://www.who.int/nutrition/publications/infantfeeding/9241541601/en/<br><br>Iechyd Cyhoeddus Cymru – Dadansoddiad Ymddygiadol o Fwydo ar y Fron (2019) |

| Cam gweithredu 11 |
|---|
| Gweithio i leihau anghydraddoldebau o ran bwydo ar y fron yng Nghymru, drwy well monitro, adrodd a gweithredu i ddylanwadu ar arferion cymdeithasol. |

| Camau gweithredu cenedlaethol |
|---|
| • bydd Iechyd Cyhoeddus Cymru yn datblygu cynllun gweithredu i hyrwyddo normaleiddio bwydo ar y fron, yn seiliedig ar y dadansoddiad ymddygiadol sydd ar gael ar hyn o bryd.<br>• bydd Iechyd Cyhoeddus Cymru yn cydweithio â phartneriaid academaidd i gomisiynu a datblygu ymchwil i lywio camau gweithredu ynghylch lleihau anghydraddoldebau o ran cyfraddau bwydo ar y fron yng Nghymru.<br>• bydd y grŵp strategol yn goruchwylio gwaith i ddatblygu canllawiau ar rôl dylanwad cymheiriaid, cefnogaeth cymheiriaid a rhwydweithiau cymheiriaid wrth hyrwyddo cychwyn a pharhau i fwydo ar y fron.<br>• bydd Llywodraeth Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru yn sicrhau bod cydnabyddiaeth briodol yn cael ei rhoi i greu arferion cymdeithasol newydd o ran bwydo ar y fron mewn rhaglenni gwaith cenedlaethol sy'n seiliedig ar leoliadau, e.e. Rhwydwaith Cynlluniau Ysgolion Iach Cymru; Cymru Iach ar Waith. |

| Camau gweithredu lleol |
|---|
| • bydd timau iechyd y cyhoedd lleol yn sicrhau bod partneriaethau strategol lleol yn deall patrymau anghydraddoldebau bwydo ar y fron yn eu cymunedau lleol.<br>• dylai byrddau partneriaeth rhanbarthol, byrddau gwasanaethau cyhoeddus a phartneriaethau strategol eraill sy'n berthnasol i'r blynyddoedd cynnar adolygu'r camau gweithredu i wella cyfraddau bwydo ar y fron yn rhan o asesiad parhaus o anghenion, gan ganolbwyntio'n bendant ar anghydraddoldebau, a sicrhau bod camau gweithredu sy'n seiliedig ar dystiolaeth yn cael eu cynnwys mewn cynlluniau lleol.<br>• dylai byrddau iechyd adolygu anghydraddoldebau o ran cyfraddau bwydo ar y fron ar bob pwynt mesur a gweithio i leihau amrywiadau. |

| Sylfaen dystiolaeth |
|---|
| Dangosyddion Data Mamolaeth Cymru<br>http://www.nwisinformationstandards.wales.nhs.uk/sitesplus/documents/299/20160629-DSCN%202016%2002-Maternity%20Indicators%20Data%20Set-Final%20v1.1.pdf<br><br>Fframwaith Canlyniadau Iechyd y Cyhoedd<br>https://public.tableau.com/views/PHOF2017LAHB-HAFAN/LAHB?:embed=y&:showVizHome=no<br><br>Gwella'r bwriad i fwydo ar y fron mewn cymunedau sydd â chyfraddau isel o ran bwydo ar y fron yng Nghymru Dulliau gweithredu sy'n seiliedig ar asedau o ran bwydo ar y fron |

| Cam gweithredu 12 |
| --- |
| Sicrhau bod ymchwil, gwerthuso a thystiolaeth yn llywio camau gweithredu i wella cyfraddau bwydo ar y fron yng Nghymru. |

| Camau gweithredu cenedlaethol |
| --- |
| • bydd Iechyd Cyhoeddus Cymru yn sefydlu grŵp datblygu ymchwil i ysgogi ymchwil i feysydd blaenoriaeth o ran bwydo ar y fron yng Nghymru.<br>• bydd Iechyd Cyhoeddus Cymru yn cydweithio â rhanddeiliaid i nodi cyfleoedd i hyrwyddo trosglwyddo a defnyddio gwybodaeth i sicrhau bod camau gweithredu yn cael eu llywio gan y dystiolaeth ryngwladol orau sydd ar gael.<br>• bydd y grŵp strategol yn datblygu ac yn cytuno ar fodel rhesymeg a fframwaith gwerthuso. |

| Camau gweithredu lleol |
| --- |
| • bydd byrddau iechyd yn sicrhau bod camau gweithredu i hyrwyddo bwydo ar y fron yn seiliedig ar y dystiolaeth orau sydd ar gael ynghylch yr hyn sy’n gweithio.<br>• bydd byrddau iechyd yn sicrhau bod yr holl gamau gweithredu yn cael eu monitro a’u gwerthuso’n briodol a bod dysgu yn cael ei rannu â phartneriaid a’r system ehangach. |

| Cam gweithredu 13 |
| --- |
| Bydd camau gweithredu i hyrwyddo bwydo ar y fron yn defnyddio arferion gorau o ran sicrhau newid ar raddfa fawr, gan gynnwys dulliau gwella ansawdd. |

| Camau gweithredu cenedlaethol |
| --- |
| • bydd rhaglen gwella ansawdd Iechyd Cyhoeddus Cymru, 1000 o Fywydau, yn ystyried cyfleoedd ar gyfer rhaglen wella genedlaethol i gynyddu cyfraddau bwydo ar y fron ar ôl 10 diwrnod ac wedi hynny.<br>• bydd Iechyd Cyhoeddus Cymru yn datblygu canllawiau ac yn darparu hyfforddiant ynghylch dulliau newid ar raddfa fawr o ran gwella iechyd y boblogaeth. |

| Camau gweithredu lleol |
| --- |
| • bydd byrddau iechyd yn cefnogi bydwragedd ac ymwelwyr iechyd wrth gael hyfforddiant mewn dulliau gwella ansawdd, e.e. gwobr arian Gwella Ansawdd gyda'n Gilydd (IQT).<br>• bydd byrddau iechyd yn cymryd rhan mewn mentrau gwella ansawdd a arweinir yn genedlaethol.<br>• bydd byrddau iechyd yn cefnogi ymarferwyr wrth ymgymryd â phrosiectau gwella ansawdd lleol. |